Archwiliadau awdurdodau lleol

Caiff awdurdodau eu harchwilio yn erbyn y Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn y Cytundeb Fframwaith, sy'n nodi'r safonau perfformiad gofynnol a ddisgwylir gan awdurdodau lleol ar draws yr ystod lawn o weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae ein hasiantaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn trefnu eu rhaglen archwilio eu hunain.

Dewisir awdurdodau lleol i gynrychioli trawsdoriad o fathau o awdurdodau lleol, lleoliadau daearyddol a lefel y gweithgarwch gorfodi fel y nodir gan ffurflenni monitro blynyddol.

Rydym ni wedi cynnal nifer o archwiliadau â ffocws sy'n edrych ar agweddau penodol ar waith gorfodi'r awdurdod lleol.

Archwiliadau Awdurdodau Lleol yng Nghymru

I gael rhagor o wybodaeth am archwiliadau awdurdodau lleol, bydd angen i chi fewngofnodi i lwyfan Hwyluso Cyfathrebu'r Asiantaeth Safonau Bwyd.